

ADRODDIAD YSGOL EIFIONYDD

Gorffennaf 2018



Noson Wobrwyo

Nos Wener, Mehefin 15fed cynhaliwyd noson wobrwyo flynyddol Ysgol Eifionydd yng Nghlwb Golff Porthmadog, Morfa Bychan. Yn ôl yr arfer cyflwynwyd gwobrau ar ddechrau'r noson ac yna mwynhawyd gwledd a disgo i ddilyn. Yr oedd pob un o'r disgyblion yn werth eu gweld a phawb wedi mwynhau yn arw. Diolch o galon i bawb fu o gymorth i sicrhau llwyddiant y noson arbennig yma sy'n benllanw i gyfnod Bl.11 yn yr ysgol. Dyma restr o'r enillwyr a llongyfarchiau calonnog i bob un ohonynt:-

GWAITH CWRS	LLEUCU LANE
ESIAMPL i ERAILL	RHIANNON PIGGON
DATBLYGIAD PERSONOL	TOMOS G. JONES
PEL DROED	JASMIN BURNETT
CHWARAEON	ELISE CONNOR
DIWYLLIANNOL	ERIN JONES-PARRY
CYNYRCHIOLI'R YSGOL	MILLIE NUNN-BOOTON (Gwaith yn y Cynradd)

Perfformiad gorau mewn pwnc:

CYMRAEG	ELIN LANE
CYMRAEG (DYSGWR Y FLWYDDYN)	AIDAN WALKER
SAESNEG	LILLY-ARWEN HUGHES-MOORE
MATHEMATEG	GWION JONES
GWYDDONIAETH	AWEN PUW
BWYD A MAETH	LUCY THOMAS
DATBLYGIAD Y PLENTYN	ALAW ROBERTS
DYLUNIO A THECHNOLEG – DEFNYDDIAU GWRTHIANNOL	ALAW WOOD
ADDYSG GREFYDDOL	MALI QUAECK
HANES	GWENAN PUW
DAEARYDDIAETH	HYW GWYN
CERDD	ERIN WILLIAMS
CELF	LLEUCU LANE
FFRANGEG	AWEN PUW
TGCh	JERZY NIECHCIAL
BUSNES	CIAN GRIFFITHS
ADDYSG GORFFOROL	OSIAN JONES
PEIRIANNEG (Ysgol a Coleg)	TYLER HAWES

Gyda diolch i Nigel Hughes am y llun isod.



Cymraeg

Bore Gwener yr ail ar hugain o Fehefin treuliodd rhai o ddisgyblion blwyddyn saith awr ddifyr yng nghwmni yr hanesydd Mr John Dilwyn Williams.

Cawsant hanes yr ifaciwis a fu yn aros ym Mhorthmadog yn ystod Yr Ail Ryfel Byd a chael cyfle i weld rhai o greiriau'r cyfnod.



Taith Sorrento



O Borthmadog i Pompeii - Unwaith yn rhagor eleni yn fintai o drideg pedwar disgybl cynhyrfus a phedwar aelod o staff brwdfrydig, yn hwyrol ar Orffennaf 2^{il}, roedd ein gwibdaith ar gychwyn - taith oedd â ffocws Ddaeryddol ei naws a ddenodd ein haelodau TGAU Ddaeryddiaeth ond hefyd ymunwyd â ni gan gyddisgyblion eraill oedd â diddordeb mewn casglu profiadau, gweld rhyfeddodau, blasu diwylliant a chyd-fwynhau, hyn oll ymysg cyfeillion. Taith i fro Sorrento, yr Eidal - ardal llosgfynydd Vesuvius a'i chrater powlen unigryw; Herculaneum a Pompeii - dau o safleoedd anheddol yr oes a fu (79 O.C.) sy'n llechu yng nghysgod Vesuvius ond fe'i dinistriwyd ill dwy gan lif pyroclastig dieflig yn agos i 2000 o flynyddoedd yn ôl; ynys hudolus, rhamantus Capri gan ei fordwyo i fwynhau ei hysblander daeryddol a gwerthfawrogi ei bwâu a'i staciau niferus a diweddu'r daith gydag ymweliad â phorthladd Sorrento ei hun gyda'i strydoedd cul, hynafol a'i rhodfeydd siopa moethus. Gwleddasom mewn bwytai niferus a blasu ei phrydau amrywiol o'r pasta i'r pítsa i'r ham Parma - hyfryd.

Dychwelsom wedi antur o bedwar niwrnod o brofiadau a golygfeydd i'w storio ar silff y cof am amser i ddod. Profodd pob un ohonom antur mewn heulwen crasboeth a throchfa yn y pwll nofio yn nosweithiol i oeri a chwerthin ymysg ffrindiau. Taith gofiadwy, bleserus.



Casglu arian i'r elusen Little Princess Trust



Ar fore Gwener, 6ed o Orffennaf fe wnaeth Elin Roberts, Blwyddyn 8 gyda chefnogaeth Efa Jones, Emma Buckley, Chloe Fensome a Morgan Poppy Lane drefnu stondin gwerthu cacennau yng nghyntedd yr ysgol i gasglu arian tuag at Little Princess Trust. Llwyddodd y genod i godi £80 tuag at yr elusen yma. Da iawn chi genod.

Gwobrwyo Llwyddiant

Yn unol â Chynllun Gwobrwyo'r ysgol bydd y disgyblion hynny sydd wedi llwyddo i gasglu naw hwyl yn ystod y flwyddyn yn cael taith i Cineworld, Cyffordd Llandudno. Mae'r daith yn dathlu llwyddiant y disgyblion hynny o flynyddoedd 7, 8 a 9 sydd wedi gwneud yn ardderchog o ran parch, prydlondeb ac ymdrech trwy gydol y flwyddyn. Da iawn chi i gyd a gobeithio y bydd pawb yn mwynhau eu hunain.

Taith Gerdded Noddedig

Ysgol
Eifionydd



Ysgol
Eifionydd

Crwydro'r fro, Gorffennaf 19eg.

Diolch am eich haelioni a'ch cefnogaeth fel cymuned.

Daw ein disgyblion brwdfrydig, diolchgar atoch gyda'u ffurflenni nawdd.

Mynnwn drawstoriad o gyfleon i'n plant

Rhaghysbysiad

Ysgol
Eifionydd

Bingo Rhoddion cymunedol

Medi 2018 – Dyddiad i'w gadarnhau yn rhifyn Medi.

Croeso cynnes i bawb – Dewch yn llw.

Ysgol
Eifionydd

